# Gradd Genedlaethol Meistr mewn Addysg - Cymhwystra ar gyfer Cyllid

## Cyflwyniad

Ym mis Mai 2020 cymeradwywyd cymhwyster Gradd Meistr mewn Addysg newydd ar gyfer addysgu o fis Medi 2021 ymlaen. Bydd saith Sefydliad Addysg Uwch yng Nghymru yn darparu'r cymhwyster, a dim ond yn y system addysg yng Nghymru y bydd ar gael.

Y saith sefydliad addysg uwch partner sydd wedi ymrwymo i'r rhaglen yw:

Prifysgol Abertawe
Prifysgol Aberystwyth
Prifysgol Bangor
Prifysgol Metropolitan Caerdydd
Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant (UWTSD)
Prifysgol Glyndŵr Wrecsam
Prifysgol De Cymru (USW)

Mae'r Rhaglenni Meistr Cenedlaethol mewn Addysg ar gael i'r holl ymarferwyr ond gallai rhai myfyrwyr bod yn gymwys i gael cymorth ariannol.

I fod yn gymwys i gael arian mae'n rhaid i chi:

1. Bod yn **ymarferydd ar ddechrau eu gyrfa** h.y., yn unigolyn ym mlwyddyn 3-6 o ymarfer fel athro ar ddechrau'r rhaglen, neu

    - Staff ysgolion partner Addysg Gychwynnol Athrawon.
    - Cynorthwywyr Addysgu sy'n bodloni'r gofynion mynediad academaidd ar gyfer y rhaglen.
    - Partneriaid Gwella Ysgolion/staff y consortia rhanbarthol/staff Estyn/staff Awdurdod Lleol/Haen ganol.
    - Cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol (gan gynnwys Addysg Bellach).
    - Ymgeiswyr ar gyrion y meini prawf o fod ym mlwyddyn 3-6 o ymarfer, ond hynny yn ôl disgresiwn y brifysgol ac mewn amgylchiadau eithriadol.

**Sylwch nad yw'r gofyniad i fod ym mlynyddoedd 3-6 o ymarfer yn berthnasol i'r llwybrau ADY nac Arweinyddiaeth**.

2. Rhaid i bob ymgeisydd **fodloni gofynion mynediad academaidd** y Sefydliad Addysg Uwch. Nifer cyfyngedig o leoedd a ariennir gan Lywodraeth Cymru sydd ar gael o fis Medi 2023.

3. Gweithio mewn **ysgol a gynhelir yng Nghymru** (neu yn achos Llwybr Anghenion Dysgu Ychwanegol gallai hyn gynnwys sefydliad Addysg Bellach yng Nghymru).

4. **Addysg i safon gradd neu gymhwyster cyfwerth**.

5. **Wedi cofrestru â Chyngor y Gweithlu Addysg** (y mae'n rhaid bod wedi cofrestru trwy gydol y rhaglen).

6. **Yn cael eu cyflogi ar gontract sydd o leiaf 0.4 CALI**, gall hyn gynnwys athrawon llanw sydd ar gontractau tymor hir naill ai gydag Awdurdod Lleol, ysgol neu asiantaeth.

7. **Wedi derbyn lle/cofrestru ar yr MA penodol hwn mewn Addysg** a gynigir gan y 7 Sefydliad Addysg Uwch partner, sef:

Prifysgol Abertawe
Prifysgol Aberystwyth
Prifysgol Bangor
Prifysgol Metropolitan Caerdydd
Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant (UWTSD)
Prifysgol Glyndŵr Wrecsam
Prifysgol De Cymru (USW)

8. Dylai fod gan ymgeiswyr, lle bo modd, **gefnogaeth eu Prifathro neu Brifathrawes** (neu gyfwerth, megis Pennaeth, Rheolwr-gyfarwyddwr, Prif Swyddog Gweithredol neu Bennaeth Gwasanaeth).

9. Pan fo rhywun eisoes wedi cyflawni gradd Meistr pwnc-benodol, efallai y bydd yn dal yn gymwys i wneud cais am y cyllid tuag at y rhaglen hon.

10. Nid yw unrhyw gymwysterau Meistr mewn Addysg eraill a gynigir gan y Sefydliadau Addysg Uwch hyn yn gymwys ar gyfer y cyllid hwn.

Bydd cymhwysedd academaidd yn cael ei ddiffinio gan yr AUC gan gynnwys unrhyw werthoedd cyfwerthedd credyd. Rhaid i bob ymgeisydd fodloni gofynion mynediad academaidd yr AUC.

Rhaglen ran amser yn unig yw hon.

Nodwch fod myfyrwyr nad ydyn nhw'n cael eu hariannu gan Lywodraeth Cymru yn gallu cael mynediad i'r Rhaglen Meistr ond ni fydd modd cael mynediad i'r cyllid penodol a nodwyd yma.

**Amodau ariannu penodol – blynyddoedd oll**

Rhaid i bob darpar ymgeisydd am gefnogaeth gydnabod a chytuno i'r amodau ariannu canlynol:

- Wrth dderbyn y cynnig hwn o grant mae'n ofynnol i athrawon barhau i weithio yng Nghymru, naill ai o fewn y system addysg a gynhelir neu'r sector addysg bellach am o leiaf 2 flynedd ar ôl cwblhau'r rhaglen.

- Ni all ymgeiswyr sy'n derbyn y cyllid hwn wneud cais am gefnogaeth cyllid ôl-raddedig pellach trwy'r Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr, ac eithrio cefnogaeth Lwfans i Fyfyrwyr Anabl lle bo'n berthnasol.

**Proses mynediad at gyllid**

Bydd y grant yn cael ei sefydlu rhwng Llywodraeth Cymru a'r Sefydliadau Addysg Uwch sy'n cymryd rhan. Ni fydd unigolion yn gwneud cais i Lywodraeth Cymru na'r Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr am y cyllid.